| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD :** | **5 Mawrth 2015** |
| **TEITL :** | **Penodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDIAD:** | **Penodi dau aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae tymhorau swydd dau o aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn dod i ben ym mis Chwefror eleni. Gan iddynt eisoes wasanaethu am ddau dymor nid ydynt yn gymwys i'w penodi am gyfnod pellach.

1.2 Hysbysebwyd am ymgeiswyr i lenwi'r seddau, yn unol â'r gofynion statudol, a bydd Panel Ymgynghorol yn cyfweld yr ymgeiswyr ar 26 Chwefror 2015.

1.3 O dan y ddeddfwriaeth berthnasol mae'n rhaid i'r Panel Ymgynghorol ystyried y ceisiadau ac yna argymell wrth y Cyngor pa ymgeiswyr i'w penodi. Mae'r Panel yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac, yn unol â'r gofynion statudol, gynrychiolydd o'r cynghorau cymuned ac 'aelod lleyg', sydd heb gysylltiad uniongyrchol â llywodraeth leol. Rôl y Panel yw ystyried pob cais a dderbynnir gan ddefnyddio'r meini prawf a osodwyd gan y Cyngor. Tra mai'r Cyngor sydd i wneud y penodiad, mae'n rhaid iddo roi sylw i argymhellion y panel.

1.4 Oherwydd amseriad y cyfweliadau, bydd argymhelliad y Panel yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar lafar yn y cyfarfod.

**2. Argymhelliad**

2.1 Ystyried a phenderfynu ar argymhelliad y Panel ar gyfer penodi dau aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.